Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Summergil House

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Summergil House

Mae Summergil House yn ysgol annibynnol arbennig sydd wedi'i lleoli ger y ffin rhwng Powys a Swydd Henffordd yn Llanandras. Agorwyd yr ysgol ym mis Mawrth 2017 ac mae'n rhan o Orbis Education and Care Group.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 5 ac 19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol.

Ar hyn o bryd, mae 15 disgybl yn mynychu'r ysgol; 13 bachgen a dwy ferch. Caiff llawer o ddisgyblion eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr, a'r gweddill o Gymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn preswylio yn y cartref plant ar y safle.

Penodwyd y pennaeth addysg ym mis Mai 2017. Mae gan yr ysgol bedwar athro dosbarth a chwe chynorthwyydd cymorth dysgu. Mae tîm clinigol, gan gynnwys therapydd lleferydd ac iaith, therapydd ymddygiad arbenigol a therapydd galwedigaethol, yn cynorthwyo'r tîm addysg.

Nod yr ysgol yw 'darparu amgylchedd diogel a saff yn yr ysgol, sy'n annog unigoliaeth, hyder a hunan-barch'.

Hwn yw ymweliad monitro cyntaf yr ysgol ers ei chofrestru.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn unol â'r meysydd ar gyfer gweithredu a argymhellwyd yn dilyn yr ail ymweliad cofrestru. Er enghraifft:

- Mae'r ysgol wedi sicrhau bod yr holl bolisïau bellach yn benodol i'w safle. Mae polisïau'n gynhwysfawr a hawdd eu dilyn gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Pan fo'n briodol, er enghraifft y polisi gwrthfwlio, mae fersiynau defnyddiol sy'n addas ar gyfer disgyblion, yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth ac ymglymiad y disgyblion mewn bywyd ysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau addas i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r ysgol wedi gwella adroddiadau i rieni i sicrhau eu bod yn dangos cynnydd disgyblion unigol, yn ogystal â thargedau ar gyfer y dyfodol, yn glir. Pan fo'n briodol, ceir ystod eang o wybodaeth ategol, er enghraifft gan wasanaethau arbenigol, gan gynnwys therapi lleferydd ac iaith. Mae'r cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn darparu arweiniad gwerthfawr ar gyfer rhieni, ac mae hyn yn galluogi dull cyson ar draws y cartref a'r ysgol. Mae'r adran bwysig ar adolygu disgyblion yn darparu fformat addas sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyfrannu eu safbwyntiau ar y pethau y maent yn hoffi eu gwneud yn yr ysgol, yr hyn maent yn ei weld yn anodd a'r hyn sy'n gallu eu helpu.
- Mae'r pennaeth wedi gwella'r prosesau sicrhau ansawdd ar draws yr ysgol. Mewn gweithgareddau craffu ar lyfrau, mae'r ffocws yn nodi'n effeithiol y cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod, y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, sut mae adborth yn cynorthwyo disgyblion, ac a yw'r gwaith yn briodol heriol. Mae teithiau dysgu yn llywio'r broses sicrhau ansawdd ac yn hyrwyddo deialog ymhlith staff ar safonau disgyblion.

Yn ychwanegol, mae cyflwyno adolygiad gwasanaeth cyfnodol (AGC) yn cefnogi prosesau sicrhau ansawdd yr ysgol ymhellach. Mae ymgynghorwyr allanol a staff y cwmni, yn annibynnol ar yr ysgol, yn cwblhau adolygiad ar ansawdd yr addysg a'r cymorth a ddarperir i ddisgyblion, yn ogystal ag ansawdd amgylchedd yr ysgol. Mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i wella safonau ar draws yr ysgol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn sefydlu amcanion gwersi clir gyda disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ffordd y maent yn defnyddio amcanion gwersi ac yn rhoi adborth perthnasol i ddisgyblion i gefnogi eu cynnydd yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae pob un o'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn darparu amgylchedd dysgu diogel a meithringar. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae staff yn ymyrryd yn rhy fuan i gynorthwyo disgyblion mewn gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn rhwystro datblygiad annibyniaeth y disgyblion eu hunain mewn dysgu.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Gryfhau defnydd athrawon o amcanion dysgu ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion**

**A2 Sicrhau bod staff yn annog disgyblion i gwblhau gweithgareddau yn annibynnol ble bynnag y bo modd**

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/07/2019